

NEWYDDION TAI LLOCHES

CROESO i ail rifyn eich cylchlythyr tai gwarchod arbennig.

Y tu mewn i'r rhifyn hwn fe welwch lawer o wybodaeth, gan gynnwys manylion cyswllt defnyddiol, y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a rhai o'ch ymdrechion anhygoel i godi arian! Mae gennym hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru, yn cynnwys atebion i gwestiynau a ofynnir yn aml.

Mae hefyd chwiladair i herio'ch meddwl!

LLWYDDIANT CODI ARIAN!

Mae llawer o gynlluniau wedi bod yn brysur yn cynnal digwyddiadau codi arian elusennol dros y misoedd diwethaf.

Llongyfarchiadau i'r tenantiaid yn;

- **Ystâd y Gelli 2**, Tretomos a gododd swm anhygoel o £2,190.00 i'r Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor drwy rafflau, boreau coffi a gweithgareddau eraill
- **Cwrt Gwyddon** yn Abercarn, a gynhaliodd arwerthiant pen bwrdd yno ym mis Mawrth, lle wnaethant godi £370. Cafodd y cyfraniadau eu rhannu'n gyfartal rhwng Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, yr ysgol Gymraeg yn Abercarn, ac Uned Cancr y Plant yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd.

Cynhaliodd hefyd nifer o gynlluniau boreau coffi yn ddiweddar gyda **Thŷ Bedwellte**, **Coed Duon** yn codi'r swm ffantastig o **£220.50** ar gyfer yr

Ymddiriedolaeth Ffibrrosis Systig.

Cododd **Oaklands ym Margod** **£50.61** yn eu bore coffi a roddwyd i'r **Gymdeithas Alzheimer.**

Os hoffech gael help gydag unrhyw syniadau codi arian, cysylltwch â Liam Bouse, Cydlynnydd Gweithgareddau, ar 01443 866449 neu drwy e-bostio bousel@caerffili.gov.uk.



Tenantiaid yn Ystâd y Gelli 2 yn cyflwyno'u sic i'r Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor.

Cartrefi Caerffili
Caerphilly Homes



GWELLIANNAU SAFON ANSAWDD TAI CYMRU (SATC)

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod ein rhaglen gwella tai gwarchod SATC bellach wedi dechrau.

Mae gwaith wedi dechrau yn Nhŷ Bedwellte, Clos Gibbs a Lle Palmer yng Nghoed Duon. Rydym hefyd wedi parhau gyda'n hymweliadau â nifer o gynlluniau lle mae arolygon ar y gweill.

Yn ystod yr ymweliadau hyn, rydym wedi derbyn llawer o gwestiynau am y rhaglen a'r gwaith i gartrefi unigol. Dyma rai o'ch cwestiynau cyffredin a'r atebion iddynt.

Oes rhaid i mi gael y gwaith wedi gwneud?

Gallwch wrthod rhai gwaith gwella, ond mae rhai y bydd yn rhaid i chi gael ei wneud er mwyn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch. Trafodwch unrhyw bryderon gyda'r Syrfêwr pan fyddant yn ymweld neu'ch Swyddogion Cyswllt Tenantiaid.

A fydd yn rhaid helpu i symud pethau?

Bydd y gweithlu'n symud eitemau ac offer mawr, megis poptai ac oergelloedd / rhewgelloedd. Os oes angen cymorth arnoch gyda phacio i ffwrdd neu symud eitemau llai, siaradwch â'r Swyddogion Cyswllt Tenantiaid a fydd yn gallu'ch helpu.

A fydd yn rhaid i mi symud allan wrth i'r gwaith cael ei wneud?

Ni fydd angen i'r rhan fwyaf o denantiaid i adael eu cartrefi wrth i'r gwaith cael ei wneud. Fodd bynnag, oherwydd maint y gwaith sydd ei angen mewn rhai cynlluniau, ac er mwyn sicrhau diogelwch pawb, bydd angen i rai tenantiaid symud allan dros dro. Os yw'ch cynllun yn un o'r rhai yr effeithir arnynt, byddwn yn ymweld i esbonio'n llawn; yn rhoi i chi ddigon o rybudd, a hefyd yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael eich cefnogi drwy gydol y gwaith.

Pwy fydd yn gwneud y gwaith?

Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan weithlu mewnol y cyngor, a'u cefnogi gan isgontractwyr lle bo angen.

A fydd ein hanghenion meddygol / symudedd yn cael eu hystyried?

Os oes gennych unrhyw broblemau meddygol neu symudedd rhowch wybod i'r Swyddog Cyswllt Tenantiaid neu Syrfêwr pan fyddant yn galw. Nid oes angen i chi ddatgelu unrhyw fanylion iddynt gan y byddant yn anfon eich manylion ymlaen i un o'n Therapyddion Galwedigaethol a fydd yn ymweld â chi ac yn cynnal asesiad. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw ofynion arbennig sydd gennych wrth i'r gwaith cael ei wneud.



NEWYDDION TAI LLOCHES: RHIFYN 2

Os wyf wedi gosod cegin fy hun, a fydd rhaid i fi dynnu hon allan?

Bydd y Syrfëwr yn asesu a yw'ch cegin ar hyn o bryd yn bodloni'r safon. Os nad ydyw, yna byddwch yn cael cynnig o gegin newydd. Gallwch wrthod hwn os ydych yn dymuno cadw'ch cegin eich hun. Nodwch os oes angen gwaith uwchraddio trydanol, ni fyddwch yn gallu gwrthod hyn gan ei fod yn hanfodol ar gyfer eich iechyd a diogelwch.

A fydd fy holl offer yn ffitio i mewn i fy nghegin newydd?

Bydd. Bydd eich holl offer presennol yn cael eu hystyried pan fydd y gegin newydd wedi'i gynllunio. Os ydych yn bwriadu prynu cyfarpar newydd rhowch wybod i ni pan fydd eich cegin newydd yn cael ei gynllunio, neu efallai ni fyddant yn ffitio yn y lle a ddarperir.

A fydd fy nghartref yn cael ei hailaddurno pan fydd y gwaith yn cael ei wneud?

Os ydych yn cael cegin newydd a/neu ystafell ymolchi, yna bydd yr ystafelloedd hyn yn cael eu haddurno fel rhan o'r gwaith. Ni fyddwn yn addurno unrhyw ystafelloedd eraill ac ni fydd yn gallu rhoi lwfans addurno.

A fydd gennym ddewis o geginau ac ystafelloedd ymolchi?

Ie, bydd dewis gennych; mae yna nifer o ddewisiadau lliw ar gael a bydd y Syrfëwr yn trafod hyn gyda chi yn ystod yr ymweliad. Mae yna hefyd opsiynau lliw ar gael ar wahân, ar gyfer y tenantiaid hynny sydd â nam ar eu golwg ac sydd angen gwaith wedi'i wneud

yn unol â safonau Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (yr RNIB).

A fydd y system wresogi yn cael ei hadnewyddu?

Bydd hyn yn dibynnu ar oedran, cyflwr ac addasrwydd eich system wresogi bresennol. Bydd pob system wresogi yn cael ei asesu a'i adnewyddu os oes angen.

A oes gennych ddigon o arian i gwblhau'r rhaglen?

Rhaid i bob eiddo sy'n eiddo i'r cyngor yn y fwrdeistref sirol cyrraedd y safonau SATC erbyn y dyddiad cau o 2020 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Ein hymrwymiad i chi yw y bydd eich holl gartrefi yn cyrraedd y safon hon erbyn hynny. Mae hyn ar wahân i'r 6 cynllun a nodwyd ar gyfer astudiaethau ailfodelu a dichonolrwydd.

Sut mae'r gwaith yn cael ei ariannu?

Bob blwyddyn rydym yn gosod cyllideb flynyddol ar gyfer gwaith gwella. Mae hyn yn cael ei ariannu gan gyfuniad o incwm rhent tai cyngor ac arian a fenthycwyd (benthycia darbodus). Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hefyd yn derbyn Lwfans Atgyweiriadau Mawr gan Lywodraeth Cymru; yn 2016/17 cawsom £7,340,000 a oedd wedi cyfrannu at welliannau SATC.

A wnewch chi ein cadw'n hysbys am hyn?

Byddwn; byddwn yn defnyddio cymaint o ffyrdd â phosibl i wneud yn siŵr eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y rhaglen. Bydd y rhain yn cynnwys cylchlythyrau, digwyddiadau yn eich cynllun fel boreau coffi neu de prynhawn, llythyron unigol ac ymweliadau gan ein Swyddogion Cyswllt Tenantiaid.



Adolygu taliadau gwasanaeth

Mae'r Cyngor wedi cael y dasg gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ar y ffordd yr ydym yn codi tâl am wasanaethau. Mae angen i daliadau gwasanaeth fod yn fwy tryloyw a'u torri i lawr fel y gall tenantiaid weld yr hyn y maent yn talu amdano.

Mae tâl gwasanaeth yn daliad a wneir gan denant tuag at gost y gwasanaethau a gwaith atgyweirio tu hwnt i'r rhai penodol ar gyfer eu byngalo neu fflat.

Caiff taliadau gwasanaethau eu trafod mewn cyfarfodydd tenantiaid chwarterol gyda chopi o'r cofnodion yn mynd at bob tenant.

Bydd tenantiaid yn derbyn cyfathrebu rheolaidd drwy gydol y broses adolygu trwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd bob chwarter, Facebook, Cylchlythyr Tai Gwarchod, taflenni gwybodaeth a Chwestiynau Cyffredin. Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Cabinet ar 22 Mehefin 2017 er mwyn i Aelodau cymeradwyo'r cynigion adolygu. Yn dilyn cyfarfod y Cabinet bydd pob tenant yn derbyn llythyr ynghylch y taliadau gwasanaeth sy'n benodol i'w cynllun nhw.

Mae taliadau gwasanaeth yn cwmpasu eitemau megis staff, y gwasanaeth larwm ac

atgyweiriadau cysylltiedig, cyfleusterau golchi dillad, goleuo a gwresogi ardaloedd cymunedol, glanhau ffenestri, teledu cymunedol, gosodiadau a ffitiadau yn y mannau cymunedol, cynnal a chadw tiroedd, atgyweiriadau cyffredinol a chynnal a chadw mannau cymunedol, a darparu cyfarpar i'r cynllun, e.e. tegellau, poptai, tostiwr a ffyrnau microdon.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon a fydddech cystal â'u codi gyda'ch Swyddog Tai Gwarchod.

Cyfarfodydd Tenantiaid

Oeddech chi'n gwybod fod eich Swyddog Tai Gwarchod yn cynnal cyfarfodydd tenantiaid chwarterol rheolaidd yn lolfa gymunedol eich cynllun?

Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i chi dderbyn newyddion a diweddariadau gan y Tîm Pobl Hŷn, yn ogystal â'r cyfle i godi unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gennych.

Bydd hysbysfwrdd eich cynllun yn dangos dyddiadau cyfarfod tenantiaid ar gyfer 2017.

Neges gan Liam Bouse, Cydlynnydd Gweithgareddau

"Mae dechrau 2017 wedi bod yn brysur iawn, gyda thenantiaid yn ymgysylltu'n fwy nag erioed yn y gweithgareddau.

Rydym wedi cynnal dosbarthiadau ymarfer corff ysgafn a dosbarthiadau TG, yn ogystal â chynnal sgysiau gan Heddlu Gwent mewn nifer o gynlluniau.

Mae cyfarfodydd hefyd wedi cael eu cynnal ym mhob cynllun yn y fwrdeistref sirol i drafod gweithgareddau cymdeithasol a theithiau dydd. Bydd pob cynllun yn y fwrdeistref sirol yn awr yn cael cynnig y cyfle i fynd ar o leiaf un daith y mis.

Lle mae tripliau wedi'u trefnu, dylai pob tenant wedi derbyn rhestr o ddyddiadau ac amseroedd pob taith a gynlluniwyd; os nad ydych wedi'u derbyn, yna siaradwch â'ch Swyddog Tai Gwarchod.

Roeddem hefyd yn ffodus i gael nifer o berfformiadau côr ysgol

dros y Pasg.

Roedd pob un o'r perfformiadau'n ardderchog a hoffwn ddiolch i'r holl ysgolion a gymerodd ran: Ysgol Gynradd Maes-y-cwmwr, Bwrdd Iechyd Iau Prifysgol Aneurin Bevan, Ysgol Gynradd Ynys-ddu, Ysgol Gynradd Pontllanfraith, Ysgol Gynradd Abercarn, Ysgol Gynradd Waunfawr, Ysgol Gynradd Trinant, Ysgol Gynradd Deri, Ysgol Gynradd Cefn-y-pant ac Ysgol Gynradd Santes Gwladys. Rydym yn gobeithio trefnu rhagor o berfformiadau côr ysgol yn y dyfodol.

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth barhaus. Rwy'n gobeithio y byddwch yn parhau i gymryd rhan yn y gweithgareddau a theithiau a gynlluniwyd ar eich cyfer eleni. Os oes gennych unrhyw syniadau ar gyfer gweithgareddau yr hoffech gymryd rhan ynddynt, rhwch wybod i mi a byddaf yn gweld os gallaf helpu."



Tîm Cymorth Symudol yn parhau i helpu tenantiaid

Ers mis Ebrill 2016, mae'r Tîm Cymorth Symudol wedi cael cyfanswm cyfredol o dros 200 o gleientiaid.

Mae straeon llwyddiant yn cynnwys asesiad a gafodd ei wneud gan y tîm gyda chwpl priod. Roedd y gŵr yn gweithio ar adeg yr asesiad; roedd eisiau ymddeol ond yn meddwl na fyddai'n gallu fforddio talu'r rhent os oedd yn gwneud hynny. Eglurodd y Swyddog Cymorth Symudol y gallai fod ganddo hawl i wneud cais am fudd-dal tai. Pan gafodd y cyfrifiadau yn cael eu cwblhau, roedd y gŵr yn gallu ymddeol yn gwybod ei fod yn ddiogel yn ariannol.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan ein Tîm Cymorth Symudol ffoniwch 01495 235614 neu e-bostiwch cymorthsymudol@caerffili.gov.uk



Tenantiaid o Pleasant Place, Pen-yr-heol gyda swyddogion o Heddlu Gwent.

Chwiliadair Blodau'r Gwanwyn

C	DD	O	M	NG	A	W	P	O	S	Y	G
U	L	N	A	I	R	I	E	G	E	T	FF
B	H	Y	PH	R	L	R	NG	O	PH	H	R
I	LL	P	CH	W	RH	G	I	P	U	LL	I
A	F	Y	I	A	S	A	L	E	A	R	S
M	B	T	H	T	U	U	I	N	CH	S	I
I	O	R	S	F	S	R	L	Y	S	P	A
L	TH	W	P	DD	T	Y	G	S	F	RH	Y
I	P	J	A	S	M	I	N	O	T	U	NG
L	A	RH	B	W	P	LL	Y	RH	G	B	D
G	Y	S	I	PH	W	T	U	A	W	R	O

Geiriau i ddod o hyd iddynt:

Asalea
Clychau'r Gog
Ffrisia
Jasmin
Lili Mai
Pabi
Rhosyn
Tegeirian
Tiwlip

Cysylltiadau defnyddiol

Tîm Gwasanaethau Pobl Hŷn

E-bost: taipoblhyn@caerffili.gov.uk

Tîm Cymorth Symudol

E-bost: cymorthsymudol@caerffili.gov.uk

Rhoi gwybod am Atgyweirio

E-bost: DLOPBE@caerffili.gov.uk

Liam Bouse, Cydlynnydd Gweithgareddau

E-bost: bousel@caerffili.gov.uk

Swyddfa Dai Ardal Cymoedd y Dwyrain

E-bost: sdacwmdwyreiniol@caerffili.gov.uk

Swyddfa Ardal Tai Cwm Rhymni Uchaf

E-bost: sdacwmrhymniuchaf@caerffili.gov.uk

Swyddfa Dai Cymdogaeth Parc Lansbury

E-bost: sdcparclansbury@caerffili.gov.uk

Swyddfa Dai Cymdogaeth Graig-y-rhaca

E-bost: sdcgrraig-y-rhaca@caerffili.gov.uk

Atgyweiriadau brys (y tu allan i oriau swyddfa)

Tîm Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

E-bost: ymholiadausatc@caerffili.gov.uk

Rhif Ffôn: 01495 235383

Rhif Ffôn: 01495 235614

Rhif Ffôn: 01443 864886

Rhif Ffôn: 01443 866449

Rhif Ffôn: 01495 235229

Rhif Ffôn: 01443 873535

Rhif Ffôn: 02920 860917

Rhif Ffôn: 02920 853050

Rhif Ffôn: 01443 875500

Rhif Ffôn: 01443 866497

NEWYDDION TAI LLOCHES: RHIFYN 2